**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**18fed Gorffennaf 2011**

# ASESIAD GWELLA: YN CYNNWYS DIWEDDARIAD AR YR ASESIAD CORFFORAETHOL

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 I gyflwyno'r Asesiad Gwella gan gynnwys y diweddariad ar yr asesiad corfforaethol i Aelodau.

## Cefndir

2 Yn dilyn cyflwyniad y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ymgymryd ag Asesiad Gwella blynyddol ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru.

3 yn ystod y cyfnod trosiannol, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi sefydlu llinell sylfaen gyffredinol, yn cynnwys barn arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill, er mwyn gallu asesu trefniadau gwella mewn modd cywir a chymesur yn y dyfodol. Ar ôl ymgymryd â'r gwaith hwn, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod nad fydd y rhan fwyaf o awdurdodau angen asesiad cynhwysfawr yn flynyddol.

## Gwybodaeth

4 Mae'r llythyr atodol gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru yn crynhoi:
- cydymffurfiaeth yr Awdurdod â'i rwymedigaethau statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus;
- cynnydd yr Awdurdod yn y meysydd i'w gwella a'r argymhellion a nodwyd yn asesiad 2010;

- sylwebaeth fer ar faterion perthnasol sydd efallai wedi dod i'r amlwg ers yr adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Awdurdod yn ymdrin â'r heriau ariannol; a
- diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen ar gyfer cyflawni'r gwaith Asesiad Gwella.

5 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn fodlon fod yr Awdurdod yn cyflawni'i ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth (Cymru) 2009, a'i fod yn debygol o gydymffurfio â'i ofynion yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

6 Daeth nifer o feysydd cyffredin i'w gwella i'r amlwg yn ystod y flwyddyn megis pa mor dda mae'r Awdurdod yn defnyddio TGCh i gefnogi gwella a sut mae gweithgareddau rheoli pobl yn cefnogi gwella. Caiff y materion hyn sylw pellach yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. Hefyd, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn monitro'r datblygiad o strategaeth ariannol yr Awdurdod.

**Argymhelliad**

7 Fod Aelodau'n nodi cynnwys y llythyr.